

Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

# bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 237 (Cymru) – 30 Ebrill 2019

## Etholiad Senedd Ewrop: y wybodaeth ddiweddaraf o ran codi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Fel y nodir ym [Mwletin 236](#), cyn etholiad Senedd Ewrop, rydym yn cynnal ymgyrch i gofrestru pleidleiswyr er mwyn annog ceisiadau cyn y dyddiad cau, sef dydd Mawrth 7 Mai.

Rhag ofn nad ydych wedi'i gweld, mae cysyniad ein hymgyrch 'Oes 5 'da ti?' yn gofyn i bobl a oes ganddynt bum munud sbâr mewn diwrnod y gallent eu defnyddio i gofrestru i bleidleisio – p'un a ydych yn rhedeg bath neu'n aros tra bod eich dillad yn cael eu golchi, dim ond pum munud fydd eu hangen arnoch. Mae'r deunydd creadigol hwn eisoes wedi cael ei ddefnyddio mewn gwahanol rannau o'r DU yn 2018 a 2019.

Rydym wedi datblygu cyfres o adnoddau i'ch helpu i godi ymwybyddiaeth o'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru, sef 7 Mai. Ynndo, ceir:

- Poster A4
- Tafflen A5
- 2 ddelwedd i'r cyfryngau cymdeithasol

## [Lawrlwythwch eich adnoddau nawr](#)

Y negeseuon allweddol i'w rhannu:

- Er mwyn pleidleisio yn yr etholiadau hyn, bydd yn rhaid i unrhyw un nad yw erioed wedi cofrestru neu sydd wedi symud yn ddiweddar gofrestru erbyn 7 Mai. Y ffordd gyflymaf a hawsaf o gofrestru i bleidleisio yw ar-lein yn <https://www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio>.
- Mae'n rhaid i ddinasyddion yr UE sydd am fwrw eu pleidlais yn y DU gofrestru i bleidleisio a hefyd gyflwyno ffurflen datganiad erbyn 7 Mai. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar ein [gwefan Mae Dy Bleidlais Di'n Cyfri](#).

# Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiad Senedd Ewrop: y wybodaeth ddiweddaraf o ran codi ymwybyddiaeth y cyhoedd**

Gwybodaeth am yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd y bydd y Comisiwn yn ei chynnal, yn cynnwys dolenni i adnoddau.

**Etholiad Senedd Ewrop: casglu data ar ôl yr etholiad**

Dolenni i ffurflenni a chanllawiau ategol ar gyfer cyflwyno data yn dilyn etholiad Senedd Ewrop.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Fe'u defnyddir fel un ffordd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol](#).

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio [gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk).

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau o ran staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Rydym yn anfon y cylchlythyr atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n

- Mae'n rhaid i bobl ailgofrestru os ydynt wedi newid cyfeiriad, enw neu genedligrwydd.
- Dim ond unwaith y mae angen i bobl gofrestru – nid oes angen iddynt gofrestru ar wahân ar gyfer pob etholiad.

Gwnaethom lansio ein hymgyrch hysbysebu digidol yr wythnos diwethaf, wedi'i phwysoli'n fwy ar gyfer yr ardaloedd hynny nad ydynt yn cynnal etholiadau lleol ym mis Mai - yn enwedig Cymru, yr Alban a Llundain. Bydd y gweithgarwch hwn hefyd yn targedu'r grwpiau nad ydynt yn cofrestru'n ddigonol (gan gynnwys myfyrwyr, y sawl sydd wedi symud yn ddiweddar a rhai cymunedau BME) yn ogystal â dinasyddion dramor.

Caiff hysbysebion teledu eu lansio yr wythnos hon, gan dargedu cynulleidfa eang o oedolion ledled y DU er mwyn sicrhau'r ymwybyddiaeth fwyaf posibl.

---

### Etholiad Senedd Ewrop: casglu data cyn yr etholiad

Rydym bellach wedi cyhoeddi ein [ffurflen casglu data](#) ar gyfer etholiad Senedd Ewrop, sy'n cynnwys y datganiad statudol o ran papurau pleidleisio drwy'r post yn ogystal â cheisiadau ar gyfer datgan canlyniadau a data ychwanegol. Mae angen darparu Ffurflen R (datganiad ar gyfer pleidleisiau post) a'r ffurflen data ychwanegol ar lefel awdurdod lleol.

Mae'r ffurflen casglu data hefyd ar gael o dan adran adnoddau [Rhan Dd](#) o'n canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau. Rydym wedi datblygu [nodyn cyfarwyddyd](#) ategol sy'n rhoi gwybodaeth am yr hyn y dylid ei dychwelyd.

Dylid dychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau i [research@electoralcommission.org.uk](mailto:research@electoralcommission.org.uk). Dychwelwch bob ffurflen **rhwng dydd Mawrth 4 Mehefin, ond heb fod yn gynharach na'r dyddiad hwn, a dydd Iau 27 Mehefin 2019 fan bellaf.**

---

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru  
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ  
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500  
[gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr hwn yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar unrhyw adeg.